# 6 Beth sydd ddim mor dda am am Fro Lleu a Nantlle?

6.1 Mae'r tabl isod yn rhestru'r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Bro Lleu a Nantlle. Fel rhan o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Bro Lleu a Nantlle i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| **Beth sydd ddim mor dda am Fro Lleu a Nantlle?** | **Nifer o weithiau y blaenoriaethwyd y thema** |
|---|---|
| • Diffyg tai addas a fforddiadwy i bobl leol eu prynu neu eu rhentu | **89** |
| • Diffyg swyddi cyflog uchel a llawn amser | **89** |
| • Sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal yn broblem | **81** |
| • Mae'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yr ardal yn annigonol | **79** |
| • Diffyg darpariaeth a gweithgareddau i bobl ifanc e.e. clwb ieuenctid a man diogel i bobl ifanc ymgynnull | **73** |
| • Pryderon am ddarpariaeth iechyd, lles a gofal presennol yn yr ardal | **72** |
| • Mae tlodi a chostau byw uchel yn broblem yn yr ardal | **70** |
| • Mae'r economi leol yn fregus – diffyg adnoddau a siopau yn cau | **68** |
| • Nifer uchel o ail dai a thai haf yn yr ardal | **57** |
| • Effaith niweidiol toriadau i wasanaethau cyhoeddus ar yr ardal | **49** |
| • Pryderon am ddarpariaeth addysg a dyfodol ysgolion gwledig | **41** |
| • Ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblem yn yr ardal | **32** |
| • Mae band eang / cysylltiad we yn wael yn lleol | **32** |
| • Pryderon am gyflwr ffyrdd a thraffig | **31** |
| • Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant yn colli tir | **29** |
| • Polisïau tai a'r maes cynllunio gan gynnwys y Cynllun Datblygu Lleol | **28** |
| • Diffyg twristiaeth cynaliadwy yn yr ardal | **21** |
| • Diffyg awch yn lleol i gynnal gweithgareddau a denu pobl newydd i fod yn arwain cynghorau cymuned a grwpiau lleol | **20** |
| • Canfyddiad o ddiffyg cyd-weithio rhwng mudiadau a mentrau lleol | **5** |

